Delyn Special-Arbennig

# FOCUS

WELSH LIBERAL DEMOCRATS
DEMOCRATIAID RHYDDFRYDOL CYMRU
www.demrhydcymru.org.uk

Newyddion a Gweithredu gan Cyng. Michele Jones

Printed by FLD Press Unit 17 Mold Business Park Mold CH 7 1XP Promoted and published by Alexandra Williams on behalf of Michele Jones both at 26 Manor Crescent, Hawarden, Deeside. CH5 3PS

# Michele a'r Dem Rhydd yn Cyflawni trosoch chi

## Michele Jones – llais newydd cryf ar gyfer Delyn

Cyhoeddodd Democratiaid Rhyddfrydol Sir y Fflint mai Michele Jones fydd eu hymgeisydd ar gyfer Etholiadau Llywodraeth y Cynulliad ar Fai 5ed.

Dywed Michele "Rwy'n hynod falch ac yn ei chyfri'n fraint i gael fy newis i frwydro tros y sedd hon, ac yn gobeithio dangos i drigolion Delyn bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ddewis da. Yn Nelyn mae fy nghartref - rydw i wedi byw yma gydol fy oes, wedi bod i'r ysgol a magu fy nheulu yma, ac wedi bod yn Gynghorydd Tref ar Ward Castell y Fflint ers 2008.

"Yn fy marn i mae Llywodraeth Llafur –

Michele yn Cy-flawni trosoch chi'

Plaid y Cynulliad wedi methu trigolion Sir y Fflint.

"Does dim ond rhaid edrych ar gyflwr y Gwasanaeth Iechyd Iedled Cymru. Mae symiau mawr o arian yn cael eu gwastraffu tra bod rhestrau aros yn parhau i fod yn annerbyniol o hir, ac mae amser aros am ambiwlans yn chwerthinllyd."

**Mae'r Dem Rhydd <u>WEDI</u> cyflawni ar eu haddewidion!**

Peidiwch â chredu'r si bod y Dem Rhydd rhywsut wedi bradychu eu hegwyddorion neu 'fethu' drwy ymuno â'r glymblaid. Daeth 65% o'n addewidion cyn-etholiad i fod yn rhan o gytundeb y glymblaid, ond fel gydag unrhyw bartneriaeth, rhaid cyfaddawdu! Heb y dylanwad Dem Rhydd yn San Steffan, ni fuasai'r canlynol erioed wedi eu cyflawni!

* Addawodd y Dem Rhydd gynnydd yn y trothwy treth incwm, ac fe gyflawnom ni! Mae hyn yn golygu na fydd raid i 50,000 o bobl yng Nghymru dalu treth incwm o gwbl.

* Addawodd y Dem Rhydd fargen decach ar gyfer pensiynwyr drwy ailsefydlu'r cyswllt rhwng pensiwn y wlad ac enillion, ac fe gyflawnom ni! Mae 615,000 o bensiynwyr yng Nghymru yn elwa o'r newidiadau hyn.

* Addawodd y Dem Rhydd i fod yn llymach gyda'r banciau, ac rydym wedi cyflawni! Nawr bydd banciau yn cael eu gorfodi i dalu ardoll a fydd hwn yn cynhyrchu hyd at £7 Biliwn ar gyfer yr economi

* Addawodd y Dem Rhydd eu bod am symleiddio'r system fudd-daliadau, a gwneud i waith weithio, ac fe gyflawnom ni!

* Addawodd y Dem Rhydd eu bod am amddiffyn gweithwyr y sector gyhoeddus sydd ar gyflogau is (llai na £21,000), ac fe gyflawnom ni! O ganlyniad mae 89,000 o weithwyr y sector gyhoeddus sydd ar gyflog isel wedi eu hamddiffyn rhag rhewi cyflogau.

* Addawodd y Dem Rhydd gynyddu Credydau Treth Plant ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel, ac fe gyflawnom ni! Bydd 100,000 o bobl Cymru yn elwa £150 o gynnydd.

## Peidiwch â chredu Llafur a'u hymgais i ail-ysgrifennu hanes!

Peidiwch ag anghofio y rheswm pam bod RHAID gwneud y toriadau. Etifeddodd y Clymblaid dyled oedd yn agos i £900 Biliwn gyda diffyg yn y gyllideb o £155 Biliwn. Roedd y Llywodraeth Lafur yn ysgrifennu sieciau gweigion heb arian i'w talu.

*Gadawodd Llafur ni gyda'r diffyg mwyaf a welodd y wlad yma erioed.

* Mae llog y Wlad ar y ddyled hon yn costio £120 Miliwn y dydd.

* Mae hyn gywerth â phetai phob dyn, dynes a phlentyn mewn dyled o £23,000.

* Rhaid oedd gweithredu, a gwneud hynny'n gyflym i atal y Wlad rhag methdalu.

* Petai Llafur wedi cadw gafael ar eu pŵer, mi fuasent hwythau wedi gwneud toriadau hefyd!

Efallai'n wir y bydd y Glymblaid yn gwneud camgymeriadau ar y daith, ac os felly bydd rhaid eu dal yn gyfrifol amdanynt, ond ni ddylid eu beio am gamgymeriadau a wnaeth Llafur o'u blaenau.

Yn Nelyn cafwyd blynyddoedd maith o reolaeth Llafur ar bob lefel o Lywodraeth, a thrwy gamreolaeth a gwario gwastraffus mae trigolion lleol wedi derbyn llai na'r disgwyl.

Mi gymerith flynyddoedd inni wella, ac rydym ni gyd yn talu'r gost!

# Mae Llywodraeth y Cynulliad Llafur/Plaid yn ddi-hid gyda'ch arian!

Ym mis Rhagfyr clywodd Bwyllgor Cyllid y Cynulliad dystiolaeth gan Gonffederasiwn y GIG oedd yn dangos bod biliwn o bunnoedd y flwyddyn yn dal i gael ei wastraffu yn y Gwasanaeth Iechyd.

Bu ailstrwythuro drud a osododd staff rheng flaen dan straen mawr a pholisi dim-diswyddo a olygodd bod pob haen reoli yn cadw swyddi.

Ac eto er gwaetha'r ffaith bod mwy o arian yn cael ei wario ar y GIG yng Nghymru, mae amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau ysbyty yn dal i dyfu, tra bo amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans yn gwaethygu.

Maen nhw'n taflu arian i ffwrdd ar y gwasanaeth awyr rhwng Gogledd a De Cymru, sy'n derbyn cymhorthdal cyhoeddus enfawr ac sy'n denu dim ond ychydig iawn o deithwyr.

Er hynny, y person sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth yng Nghymru, y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, Plaid Cymru, yw un o ddefnyddwyr rheolaidd y gwasanaeth!

Yn y cyfamser mae addysg ein plant yn dioddef.

Mae canlyniadau yng Nghymru ymhell y tu ôl i sawl gwlad arall. Ar gyfartaledd mae £604 yn llai yn cael ei wario ar ddisgyblion yng Nghymru o'i gymharu â disgyblion dros y ffin ac o dan gynlluniau'r Ceidwadwyr bydd y bwlch gwario yma yn lledu i dros £800.

# Yes! le dros bleidleisiau tecach!

## Refferendwm Pleidleisiau Tecach ar Fai 5ed 2011

Ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad, bydd pleidlais arall yn cael ei chynnal er mwyn pendefrynu a ddylem gael sustem bleidleisio decach ai peidio. Ydych chi'n cofio'r sgandal treuliau, ble'r roedd ASau yn cymryd eu swyddi'n ganiataol a defnyddio arian y trethdalwyr i brynu eitemau drud tra'r roedd eu hetholwyr yn ymdrechu i gadw to uwch eu pennau?

Bydd system Pleidlais Amgen (PA) yn sicrhau na fydd seddi diogel mwyach. Bydd yn rhaid i ASau weithio'n galetach i ennill eich pleidlais, ac felly ni fydd modd iddynt gymryd eu safle breintiedig yn ganiataol. Peidiwch ag anghofio mai arian trethdalwyr sy'n talu amdanynt, eu bod yno i'ch gwasanaethu chi, nid i foddhau eu hunain!

Cysylltwch â mi os hoffech wybod mwy am bolisi Dem Rhydd Cymru, neu amdanaf fi, eich ymgeisydd lleol. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i dderbyn unrhyw gefnogaeth yr hoffech ei rhoi imi gyda'r ymgyrchu, ac os hoffech fod yn rhan o'r gwaith yma, neu eich bod yn awyddus i arddangos poster neu ddiemwnt, yna cysylltwch â mi.

Ffoniwch fi ar: 01352 730 847 neu 07809 616 461
Gyrrwch neges e-bost i: michele4delyn@gmail.com
neu dilynwch fi ar *facebook* Cllr Michele Jones neu ar wefan Dem Rhydd Sir y Fflint

Ewch i'n gwefan i gael y newyddion lleol diweddaraf
**www.flintshirelibdems.org.uk**

**Mae Michele am glywed eich barn!**

**Name/Enw:**

**Address/Cyfeiriad:**

**Email/Ebost:**

**Tel:**

Edrychaf ymlaen at glywed gennych

*Michele Jones*

The Lib Dems and their elected representatives may use the information you provide to contact you about issues you may find of interest. Some of these contacts may be automated. You can opt out of some or all contacts at any time by contacting Lib Dems 4 Cowley St, London